

Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

Llwyfannau Rhannu Fideos: Cynllun a Dull Gweithredu Ofcom



Cyhoeddwyd 6 Hydref 2021

Gair gan Kevin Bakhurst

Cyfarwyddwr Grŵp Ofcom ar gyfer Darlledu a Chynnwys Ar-lein

Mae'r papur hwn yn amlinellu dull gweithredu a chynllun Ofcom ar gyfer gwaith mewn cysylltiad â llwyfannau rhannu fideos – gwefannau ac apiau, wedi'u sefydlu yn y DU, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr rannu fideos, fel TikTok, OnlyFans a Twitch.

Mae llwyfannau rhannu fideos (VSPs) yn rhan bwysig o fywyd pobl. Ond rydym yn gwybod o'n gwaith ymchwil bod saith o bob deg defnyddiwr wedi gweld rhywbeth a allai fod yn niweidiol wrth eu defnyddio. I helpu i fynd i'r afael â hyn, mae Ofcom wedi cael dyletswyddau newydd i oruchwylio agweddau penodol ar sut mae VSPs yn gweithredu.

Yn wahanol i'n gwaith teledu a radio, nid yw hyn yn golygu asesu darnau unigol o gynnwys. Yn hytrach, mae'r gofynion yn canolbwyntio ar gael systemau a phrosesau sy'n diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.

Yn benodol, rhaid i VSPs ddefnyddio'r mesurau a nodir yn y gyfraith, lle bo'n briodol, i ddiogelu plant rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol – a phob defnyddiwr rhag mathau penodol o gynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n cymell trais neu gasineb. Rôl Ofcom yw sicrhau bod VSPs yn rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr – a chymryd camau gweithredu os nad ydynt yn gwneud hynny.

Mae Ofcom wedi bod yn datblygu ac yn gweithredu'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi'r rheolau VSP newydd. Heddiw, rydym yn cwblhau'r gwaith hwnnw drwy gyhoeddi ein [canllawiau VSP cysylltiedig](#). Gweler adran 3 o Ganllawiau Ofcom i ddarparwyr ar sut mae diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol i gael rhagor o wybodaeth. Ar wahân, mae'r ddogfen hon yn amlinellu beth byddwn yn ei wneud yn ystod cyfnod y drefn hon i godi safonau o ran diogelu defnyddwyr ac i fynd i'r afael â meysydd lle mae diffyg cydymffurfio. Dros y deuddeg mis nesaf rydym yn bwriadu canolbwyntio'n benodol ar y canlynol: lleihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol ar



wefannau i oedolion; gosod y sylfeini ar gyfer dilysu oedran ar y gwefannau hynny; mynd i'r afael â chasineb a therfysgaeth ar-lein; sicrhau profiad priodol i oedran ar lwyfannau sy'n boblogaidd ymysg pobl dan 18 oed; a sicrhau bod prosesau VSPs ar gyfer adrodd cynnwys niweidiol yn effeithiol. Ym mis Hydref 2022 byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad VSP blynyddol cyntaf, gan asesu'r cynnydd yn erbyn y nodau hyn a galluogi defnyddwyr i weld sut mae eu gwasanaethau'n gweithio i fynd i'r afael â niwed.

Bydd y profiad hwn yn ein helpu i baratoi ar gyfer cyfrifoldebau ychwanegol i reoleiddio cynnwys ar-lein yn y dyfodol. Daw hynny ar ffurf y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, a fyddai'n mynd i'r afael ag ystod ehangach o lawer o niwed – ac yn darparu set ehangach o ddyletswyddau a phwerau i Ofcom – na'r drefn VSP bresennol. Er hynny, mae'r ddwy drefn yn debyg. Mae'r ddwy yn seiliedig ar y systemau a'r prosesau y mae cwmnïau'n eu defnyddio i ddiogelu eu defnyddwyr. Mae rôl Ofcom yn mynnu ein bod yn ystyried hawliau defnyddwyr, gan gynnwys rhyddid mynegiant, sef hanfod y rhyngrwyd.

Felly mae ein gwaith VSP yn gyfle cynnar i wella diogelwch defnyddwyr ac i asesu effaith ein gwaith ar-lein. Rwy'n gobeithio y bydd y papur hwn yn helpu i esbonio ein dull gweithredu ar gyfer y dasg bwysig honno.

Y drefn VSP – yn gryno

Ofcom yw rheoleidiwr llwyfannau rhannu fideos (VSPs) sydd wedi'u sefydlu yn y DU. Mae'r drefn wedi'i nodi yn Rhan 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac mae'n deillio o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol Ewropeaidd 2018. Daeth y gofynion i rym ar 1 Tachwedd 2020 – ac ers hynny rydym wedi bod yn datblygu ac yn gweithredu'r fframwaith rheoleiddio. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu canllawiau rheoleiddiol.

Mae'r gyfraith yn mynnu bod darparwyr VSP yn y DU yn hysbysu Ofcom am eu gwasanaeth. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau asesu a yw eu gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf cyfreithiol eu hunain. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo darparwyr, [Llwyfannau rhannu fideos: pwy sydd angen hysbysu?](#) Ar hyn o bryd mae 18 o wasanaethau wedi hysbysu Ofcom eu bod yn bodloni'r meini prawf perthnasol. Ni fydd llawer o VSPs yn rhan o'r cwmpas oherwydd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf awdurdodaethol, ond mae'n bosib eu bod yn cael eu rheoleiddio gan aelod-wladwriaethau'r UE.

O dan y drefn newydd, rhaid i VSPs ddiogelu pob defnyddiwr rhag deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb yn erbyn grwpiau penodol, a chynnwys a fyddai'n cael ei ystyried yn drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth; cynnwys cam-drin plant yn rhywiol; a hiliaeth a senoffobia. Rhaid iddynt hefyd ddiogelu pobl dan 18 oed rhag deunydd a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol. Rhaid cyrraedd safonau mewn cysylltiad â hysbysebu hefyd.

I ddiogelu'r cyhoedd a phobl dan 18 oed rhag fideos niweidiol, rhaid i VSPs roi mesurau priodol ar waith, a allai gynnwys:

- Cael telerau ac amodau ar gyfer deunydd niweidiol, a'u gweithredu'n effeithiol
- Cael mecanweithiau fflagio, adrodd neu sgorio, a'u gweithredu'n effeithiol

- Rhoi mesurau sicrwydd oedran a/neu reolaeth rhieni ar waith i ddiogelu pobl dan 18 oed
- Sefydlu prosesau cwyno hawdd eu defnyddio
- Darparu adnoddau a gwybodaeth ynghylch llythrennedd yn y cyfryngau

Gallwch ddarllen mwy am y gofynion rheoleiddio, y deunydd niweidiol y mae'n rhaid i VSPs ddiogelu defnyddwyr rhagddynt, a'r mesurau y mae'n rhaid i VSPs ystyried eu rhoi ar waith yng [Nghanllawiau Niwed a Mesurau Ofcom].

Yn wahanol i'n gwaith darlledu, nid yw rôl Ofcom yn canolbwyntio ar bennu a ddylai eitemau cynnwys penodol fod ar gael ai peidio, neu a ydynt yn cydymffurfio â safonau cynnwys penodol. Yn hytrach, ein rôl yw sicrhau bod gan lwyfannau systemau a phrosesau diogelwch ar waith sy'n darparu diogelwch effeithiol i'w defnyddwyr rhag y niwed y sonnir amdano uchod. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i asesu'r mesurau y mae llwyfannau'n eu rhoi ar waith ac i ystyried yr angen am unrhyw welliannau diogelwch, gan gynnwys y mathau o gynnwys sydd ar gael i ddefnyddwyr ar lwyfannau.

Mae gan Ofcom bwerau casglu gwybodaeth newydd o dan y drefn VSP i gasglu gwybodaeth gan VSPs perthnasol am y mesurau sydd ganddynt ar waith i ddiogelu defnyddwyr, ac i adrodd ar hyn. Bydd y cyntaf o'r Adroddiadau VSP Blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2022.

Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei bwriad i ddisodli'r drefn VSP yn y DU â'r drefn diogelwch ar-lein o dan y Bil Diogelwch Ar-lein, sy'n destun craffu cyn y broses ddeddfu ar hyn o bryd. Bydd cyflwyno'r drefn VSP gynharach yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer llywio a datblygu'r drefn diogelwch ar-lein yn y dyfodol.

Yr hyn y gall rheoleiddio VSP ei gyflawni

Mae llwyfannau rhannu fideos (VSPs) yn fath o wasanaeth fideos ar-lein lle gall defnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu. Maen nhw'n cael eu defnyddio'n eang gan amrywiaeth eang o ddefnyddwyr rhyngwlad yn y DU. Roedd 97% o boblogaeth ar-lein y DU wedi defnyddio o leiaf un ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.¹

Mae VSPs yn boblogaidd ar draws pob grŵp oedran, cefndir economaidd-gymdeithasol ac ethnigrwydd. Er bod cynnydd mewn gwyllo fideos ar-lein wedi bod ym mhob grŵp oedran yn ystod cyfnod clo gwanwyn 2020, roedd yn arbennig o amlwg ymysg pobl ifanc. Dywedodd bron i dri chwarter (74%) o bobl rhwng 15 a 24 oed yn y DU eu bod wedi gwyllo fideos byr ar-lein bob diwrnod yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae VSPs yn cynnig manteision enfawr i ddefnyddwyr ac i'r economi, gan ddarparu llwyfan ar gyfer cyfathrebu, creadigrwydd a hunanfynegiant. Gall cynnwys fideo gael ei lwytho i fyny gan yr unigolion sydd wedi'i gynhyrchu. Mae rhai yn ystyried eu hunain yn grewyr cynnwys neu'n ddylanwadwyr. Mae VSPs hefyd yn ffynhonnell boblogaidd o adloniant ac addysg, ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu a marchnata busnesau.

Ond mae twf cyflym iawn gwasanaethau newydd, y mae nifer ac amrediad eu defnyddwyr yn ddigynsail, wedi creu rhai heriau difrifol iawn. Mae rhyddid a galluogrwydd cyfathrebu unigryw llwyfannau rhannu fideos wedi galluogi cynnwys ac ymddygiad niweidiol i ymledu hefyd.

Yn rhy aml, mae cwmnïau wedi blaenoriaethu twf heb dalu digon o sylw i ddiogelwch defnyddwyr. Rydym wedi gweld niwed yn cynyddu'n gyflym, wedi'i sbarduno gan yr un effeithiau data a rhydwai a roddodd hwb enfawr i fabwysiadu gwasanaethau ar-lein ledled y byd.

Mae gwaith ymchwil Ofcom wedi canfod bod 70% o'r rheini sy'n defnyddio VSPs wedi gweld neu wedi profi rhywbeth a allai fod yn niweidiol yn ystod y tri mis diwethaf. Roedd traean y defnyddwyr (32%) wedi gweld neu wedi profi cynnwys casineb,² ac un o bob pump (21%) wedi gweld fideos neu gynnwys ar VSP a oedd yn hybu hiliaeth. Roedd mwy o bobl o gefndiroedd lleiafrif ethnig wedi gweld y math hwn o gynnwys (40%) o'i gymharu â defnyddwyr ethnig gwyn (19%).

Mae defnyddwyr iau'r rhyngwlad yn dweud eu bod wedi cael mwy o brofiadau a allai fod yn niweidiol ar-lein nag oedolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pobl rhwng 12 a 15 oed yn arbennig o bryderus ynglŷn â bwlio, ymddygiad difriol, iaith casineb a chynnwys yn hybu hunan-niweidio.³

Mae gwaith ymchwil Ofcom wedi canfod bod 70% o'r rheini sy'n defnyddio VSPs wedi gweld neu wedi profi rhywbeth a allai fod yn niweidiol yn ystod y tri mis diwethaf.

¹ Cynhaliodd Ofcom ymchwil defnyddwyr yn ystod hydref 2020, a oedd yn edrych ar brofiad defnyddwyr ar draws y sector VSP. Felly mae'r canfyddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn y papur hwn yn ymwneud ag ystod eang o VSPs, gan gynnwys y gwasanaethau byd-eang mwyaf poblogaidd, nid dim ond y rhai sydd yng nghwmpas trefn Ofcom. Ofcom, [Arolwg o'r defnydd o lwyfannau rhannu fideos a phrofiad o niwed](#) 2021.

² Caiiff cynnwys casineb ei ddiffinio fel fideos neu gynnwys sy'n hybu; casineb tuag at bobl eraill, trais tuag at bobl eraill, a hiliaeth. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr ymchwil hwn rhwng mis Medi a mis Hydref 2020. Mae 'tri mis diwethaf' yn cyfeirio at y tri mis cyn y cyfweiliad

³ Ofcom/ICO, [Profiad defnyddwyr y rhyngwlad o niwed posibl ar-lein](#), Mehefin 2020

Rydym wedi gweld datblygiadau sylweddol yn y diwydiant a'r sector diogelwch technoleg yn y blynyddoedd diwethaf i ddiogelu defnyddwyr rhag profiadau niweidiol ar-lein. Mae'r mentrau hyn yn galonogol ond mae ffordd hir i fynd o hyd – o ran datblygu mesurau mwy cadarn a chynyddu ymgysylltiad defnyddwyr â nhw. Rydym yn gwybod o'n gwaith ymchwil bod llawer o ddefnyddwyr VSPs (60%) yn dal yn anymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd i'w diogelu ar y llwyfannau hyn, a dim ond chwarter sydd wedi fflagio neu adrodd cynnwys niweidiol ar unrhyw adeg. Ymysg y rhesymau dros beidio â gweithredu o gwbl mae canfyddiad na fydd hynny'n gwneud gwahaniaeth (31%) a pheidio â gwybod beth i'w wneud, neu ble i'w adrodd (25%).

Daw'r diwygiadau i'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol, a phroses y Llywodraeth o'i throsi'n gyfraith y DU, ar yr union bryd i ddechrau gwella safonau diogelwch, tryloywder ac atebolrwydd i ddefnyddwyr y rhyngwryd cyn rhoi rheoliadau diogelwch ar-lein ehangach ar waith yn y DU.

Wrth ddatblygu dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs, rydym wedi canolbwyntio ar yr angen i hybu newidiadau ystyrion i ddefnyddwyr; dylai hyn gynnwys gwelliannau amlwg, dros amser, i systemau a phrosesau diogelwch llwyfannau; mynediad haws at brosesau adrodd a chwyno llwyfannau, a rhagor o hyder ynddynt; a chynyddu amlygrwydd y camau gweithredu mae llwyfannau'n eu cymryd i atal ymddygiad niweidiol ac i ddiogelu defnyddwyr.



Ein dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio VSP

Dyma gam cyntaf Ofcom o ran rheoleiddio diogelwch ar-lein. Mae pwerau newydd Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs wedi'u sefydlu yn y DU yn golygu, am y tro cyntaf erioed, bod llwyfannau wedi'u sefydlu yn y DU sy'n caniatáu i ddefnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu ar-lein yn ddarostyngedig i reoliadau statudol annibynnol.

Yn ystod y 12 mis ers gosod y ddeddfwriaeth yn Senedd y DU, rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r sector ac yn datblygu a gweithredu'r fframwaith rheoleiddio i gefnogi'r drefn newydd. Yn benodol, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Ymgysylltu â darparwyr VSP i ddeall y dulliau presennol o ddiogelu defnyddwyr, gan ddechrau gyda [Chais am Dystiolaeth](#) yn haf 2020.
- Datblygu canllawiau ar [bwy sydd angen hysbysu Ofcom](#) o dan y drefn, canllawiau ar y

niwed a'r mesurau yn y fframwaith statudol a [chanllawiau drafft ar ofynion hysbysebu](#).

- Cynnal ymchwil helaeth ar y niwed mae defnyddwyr VSPs yn ei brofi. Roedd hyn yn cynnwys eu hymwybyddiaeth o fesurau diogelu llwyfannau, a'u hymgysylltiad â nhw.⁴
- Gweithio gydag arbenigwyr yn Sefydliad Alan Turing ac yn y Sefydliad Cymunedau Cysylltiedig ym Mhrifysgol Dwyrain Llundain i gynhyrchu adroddiadau ar gasineb ar-lein ac ar ddiogelu pobl ifanc o dan oed, yn y drefn honno.⁵

Mae ystod eang o lwyfannau yn rhan o'r cwmpas

Mae'r farchnad VSP yn un amrywiol lle mae ystod eang o wasanaethau'n targedu gwahanol ddefnyddwyr gyda chynnwys a swyddogaethau gwahanol iawn. Ond nid yw Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio pob VSP gan mai dim ond i wasanaethau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer sefydlu yn y DU y mae ein dyletswyddau'n berthnasol.⁶

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae 18 o ddarparwyr gwasanaethau wedi hysbysu Ofcom eu bod yn bodloni'r meini prawf perthnasol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig amrywiaeth o wahanol brofiadau ac yn amrywio'n sylweddol mewn maint, cyrhaeddiad ac adnoddau. Maent yn cynnwys:

- Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy'n arbennig o boblogaidd ymysg defnyddwyr iau, fel TikTok a Snapchat.
- Llwyfannau sy'n canolbwyntio ar ddiddordebau penodol fel chwaraeon neu gemau cyfrifiadurol, fel Recast Sports neu'r llwyfan ffrydio Twitch.
- Gwasanaethau sy'n caniatáu cynnwys i oedolion o natur bornograffig, gan gynnwys gwasanaethau tanysgrifio uniongyrchol i ddilynwyr, fel OnlyFans a PocketStars.

Mae [rhestr lawn o'r gwasanaethau](#) sydd wedi hysbysu Ofcom i'w gweld ar ein gwefan. Byddwn yn diweddarau'r rhestr wrth i ragor o wasanaethau ein hysbysu.

⁴ Ofcom, [Arolwg o'r defnydd o lwyfannau rhannu fideos a phrofiad o niwed](#) 2021.

⁵ Ofcom, A Report by The Alan Turing Institute on [Understanding online hate](#), 2021; Ofcom, A Report by the University of East London – [Research on](#)

[Protection of Minors: A literature Review and Interconnected Frameworks](#), 2021

⁶ Gallwch ddarllen mwy am gwmpas a meini prawf awdurdodaethol y drefn [yma](#).

Er bod rhai o'r VSPs hyn yn cyfrif am gyfran sylweddol o brofiadau fideo ar-lein yn y DU, nid yw rhai o'r llwyfannau byd-eang mwyaf, gan

gynnwys YouTube a Facebook, yn wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU ar hyn o bryd.⁷

Hyblygrwydd a chymesuredd fydd sail ein dull

Mae amrywiaeth y VSPs sy'n rhan o'r cwmpas yn golygu bod y risgiau gallant eu peri, a'r mesurau diogelu y mae angen iddynt eu cynnig i ddiogelu defnyddwyr, yn amrywio. Nod y ddeddfwriaeth yw adlewyrchu'r amrywiaeth a'r ddynamiaeth hon. Mae'n nodi amrywiaeth o fesurau diogelu ond nid yw'n rhagnodi pa rai y dylai llwyfan eu rhoi ar waith, nac yn mynnu dull unffurf ar draws llwyfannau. Mae'r gwaith rheoleiddio'n canolbwyntio ar sicrhau bod y mesurau mae llwyfannau'n penderfynu eu defnyddio yn briodol ar gyfer diogelu eu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.

Cyfrifoldeb darparwyr VSP yw penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r risgiau mae eu gwasanaethau'n eu peri a chymryd camau gweithredu sy'n gymesur i'r risg o niwed, ac sydd wedi'i deilwra i'r amgylchiadau maen nhw'n eu hwynebu. Bydd Ofcom yn mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth, gan dargedu'r risgiau

mwyaf o niwed ac asesu effeithiolrwydd mesurau diogelu llwyfannau.

Mae Ofcom yn disgwyl i ddarparwyr VSP fod yn rhagweithiol, gan rag-weld risgiau a chymryd camau diogelu cymesur. Nid yw hyn yn golygu monitro cyffredinol ar gyfer cynnwys niweidiol.⁸ Mae'n golygu y dylai darparwyr weithio'n rheolaidd ac yn systematig i fynd i'r afael â risgiau presennol, a rhai sy'n dod i'r amlwg, drwy roi mesurau diogelu effeithiol ar waith. Dylai darparwyr ystyried canllawiau Ofcom ar fesurau priodol. Yn y canllawiau hyn, nid ydym yn rhagnodi dull penodol adnoddau technegol penodol y dylai llwyfannau eu defnyddio, ond yn amlinellu arferion da i'w hystyried wrth roi mesurau deddfwriaethol ar waith. Hefyd rydym yn annog darparwyr i ddefnyddio tystiolaeth berthnasol i benderfynu ar eu mesurau, ac i gasglu data ar eu heffeithiolrwydd.⁹

Cyfrifoldeb darparwyr VSP yw penderfynu ar y ffordd orau o reoli'r risgiau mae eu gwasanaethau'n eu peri a chymryd camau gweithredu sy'n gymesur i'r risg o niwed, ac sydd wedi'i deilwra i'r amgylchiadau maen nhw'n eu hwynebu.

⁷ O dan fframwaith Gwlad Tarddiad y Gyfarwydddeb AVMS, bydd pob VSP â phresenoldeb yn Ewrop yn cael ei reoleiddio gan awdurdod rheoleiddio cenedlaethol yn yr UE. Mae Facebook a YouTube yn debygol o gael eu rheoleiddio gan reoleidiwr Iwerddon nes pasio'r Bil Diogelwch Ar-lein yn y DU, a fydd yn ymestyn dyletswyddau rheoleiddio Ofcom y tu hwnt i wasanaethau wedi'u sefydlu yn y DU.

⁸ Ni all Ofcom osod rhwymedigaethau monitro rhagweithiol ar gwmnïau o dan y drefn VSP

⁹ Mae'r agwedd hon ar y drefn yn cydweddu â ffocws ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau ([MSOM](#)) ar werthuso'r "hyn sy'n gweithio" i wella llythrennedd yn y cyfryngau.

Bydd rôl Ofcom yn canolbwyntio ar oruchwylio, atebolrwydd a thryloywder

Er ei bod i ddarparwyr VSP benderfynu ar ba fesurau deddfwriaethol sy'n briodol i ddiogelu eu defnyddwyr, rôl Ofcom yw eu dal i gyfrif am eu penderfyniadau.

Mae Ofcom yn argymhell bod darparwyr yn rhoi prosesau rheoli risg ar waith gan ein bod yn credu y byddant yn helpu llwyfannau i fabwysiadu dull cynhwysfawr o ddiogelu defnyddwyr. Bydd Ofcom yn mynd ati i ddeall cyfanrwydd systemau diogelwch a rheoli risg darparwyr. Bydd hyn yn cynnwys y mesurau a roddir ar waith gan y llwyfan, a allai fod yn cynnwys rhai ar ben yr hyn sydd wedi'i amlinellu yn y ddeddfwriaeth, a'r rhesymau am y penderfyniadau hynny.

O dan gynigion y Llywodraeth yn y Bil Diogelwch Ar-lein drafft, bydd yn rhaid i gwmnïau gynnal asesiadau risg a rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau a nodir.

Bydd Ofcom yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar fesurau diogelu i ddefnyddwyr y VSPs perthnasol, gan ddechrau yn hydref 2022. I helpu i gynhyrchu'r adroddiadau hyn byddwn yn casglu gwybodaeth ac yn disgwyl i gwmnïau ddatgelu'r mesurau maen nhw'n eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol yn llawn i ni. Rydym yn disgwyl mai hwn fydd un o'r adroddiadau trawsbynciol cyntaf o'i fath, gan ddarparu tryloywder i ddefnyddwyr a'r cyhoedd ynghylch y camau mae llwyfannau'n eu cymryd er mwyn diogelu defnyddwyr.

Ni ddylai rheoleiddio gyfyngu ar ryddid mynegiant

Mae Ofcom wedi arfer cyflenwi trefnau cymhleth lle rydym yn cydbwysu mwy nag un amcan, fel diogelu dinasyddion a defnyddwyr, cefnogi marchnadoedd deinamig, arloesol a chystadleuol, a chynnal hawliau sylfaenol defnyddwyr, gan gynnwys rhyddid mynegiant a phreifatrwydd. Weithiau gall yr amcanion hyn wrthdaro â'i gilydd ac mae'n rhaid inni ddefnyddio tystiolaeth ac arbenigedd i daro'r cydbwysedd cywir.

Mae rhyddid mynegiant yn hawl ddynol sylfaenol a rhaid inni sicrhau nad yw'r drefn newydd yn cyfyngu'n anghymesur ar ryddid mynegiant ar-lein.¹⁰ O dan y drefn VSP, nid oes rhwymedigaethau ar gwmnïau eu hunain i gynnal rhyddid mynegiant, ond mae Ofcom wedi'i rwymo'n gyfreithiol i ystyried yr hawliau sylfaenol hyn. Mae ein canllawiau i ddarparwyr VSP wedi cael eu cynhyrchu'n gyson â'r hawliau hyn.

Ein rôl yw hybu systemau a phrosesau effeithiol ar draws VSPs i sicrhau diogelwch defnyddwyr y rhyngrwyd mewn cysylltiad â meysydd niwed penodol

Rhaid i VSPs ddiogelu eu defnyddwyr rhag meysydd niwed penodol, gan gynnwys mathau penodol o gynnwys troseddol a deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb. Rhaid iddynt hefyd ddiogelu pobl dan 18 oed rhag deunydd a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol. Rydym yn cydnabod bod yr ystod o

gynnwys a allai berthyn i'r diffiniadau hyn yn eang iawn o bosibl. Bydd dull gweithredu Ofcom yn blaenoriaethu'r meysydd a allai achosi'r niwed mwyaf i ddefnyddwyr. Gall VSPs a rhanddeiliaid eraill â diddordeb ddisgwyl i Ofcom fabwysiadu'r agwedd gryfaf a phennu'r disgwyliadau uchaf ar gyfer y meysydd niwed mwyaf difrifol a dybryd –

¹⁰ Mae'r hawl i ryddid mynegiant yn bodoli yn y gyfraith gyffredin ac yn Neddf Hawliau Dynol 1998, sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau

Dynol, gan gynnwys Erthygl 10, mewn cyfraith ddomestig.

fel deunydd cam-drin plant yn rhywiol, neu gynnwys terfysgol.

Mae'r drefn hon yn ymwneud â systemau a phrosesau diogelwch llwyfannau, nid rheoleiddio darnau unigol o gynnwys. Dylai unigolion gwyno am fideos niweidiol i'r darparwyr VSP yn y lle cyntaf. Rydym am i ddefnyddwyr ymgysylltu â phrosesau adrodd, fflagio a chwyno VSPs. Dylai defnyddwyr deimlo eu bod wedi'u grymuso i ddefnyddio'r mecanweithiau hyn a theimlo'n hyderus y bydd gwneud hynny'n arwain at gamau gweithredu ar ran y darparwr, lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol. Os nad yw defnyddwyr yn fodlon ar brosesau diogelwch neu swyddogaethau cwyno VSP, gallant roi gwybod inni drwy ein [porth cwynion ar-lein](#).

Nid oes gan Ofcom rôl yn ymateb i gwynion gan ddefnyddwyr unigol nac yn dyfarnu arnynt. Byddwn yn monitro'r tueddiadau mewn cwynion

a wneir i ni'n uniongyrchol drwy ein gwefan fel dangosydd pwysig i'n helpu i nodi problemau posibl â phrosesau llwyfannau, neu niweidiau newydd sy'n dod i'r amlwg. Hefyd byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi ein gwaith ymchwil parhaus ar y niwed sy'n cael ei brofi ar-lein ac ar fesurau diogelwch llwyfannau.

Byddwn yn defnyddio nifer o ffynonellau i nodi pryderon o ran cydymffurfio a meysydd i'w gwella. Yn ogystal â chadw golwg ar y cwynion a wneir i Ofcom, byddwn yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a geir drwy ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau diogelwch technoleg, mudiadau cymdeithas sifil, ac elusennau sydd â diddordeb mewn diogelwch ar-lein. Hefyd byddwn yn cadw golwg ar brofiadau defnyddwyr ar-lein ac yn monitro tueddiadau drwy ein rhaglen ymchwil helaeth.

Bydd dull gweithredu Ofcom yn blaenoriaethu'r meysydd a allai achosi'r niwed mwyaf i ddefnyddwyr.

Byddwn yn cymryd camau gorfodi cadarn os gwelwn nad yw niwed sylweddol yn cael sylw

Gall darparwyr ddisgwyl agwedd gadarn, ond teg, at ein dyletswyddau newydd. Rydym yn disgwyl i llwyfannau ymgysylltu'n adeiladol ac yn agored ag Ofcom, a bod yn fodlon gwella. Rydym eisoes wedi ymgysylltu â bron pob un o'r llwyfannau sydd wedi ein hysbysu. Rydym wedi trafod prosesau llwyfannau a'u hymatebion i broblemau penodol. Mae'r ymgysylltiad hwn eisoes wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i fesurau diogelwch. Mae un llwyfan wedi gwella cynnwys a chyfathrebiad ei delerau ac amodau mewn cysylltiad â deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb.

Yn gyffredinol, byddwn yn mynd ati i ddatrys problemau yn anffurfiol gyda llwyfannau, oherwydd dyna'r ffordd gyflymaf a mwyaf effeithlon o sicrhau diogelwch defnyddwyr. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle byddwn yn ystyried cymryd camau gorfodi ffurfiol ar unwaith os bydd amheuaeth o dorri

rhwymedigaethau. Mae'r ystyriaethau perthnasol ar gyfer camau o'r fath yn ymwneud â difrifoldeb y deunydd, y niwed a achoswyd i ddefnyddwyr a chamau gweithredu'r darparwr (ee diffyg ymgysylltiad ag Ofcom).

Os bydd Ofcom yn penderfynu bod angen cymryd camau gorfodi ffurfiol, byddwn yn ymchwilio i'r mater i weld a oes achos o dorri wedi bod, a pha gamau pellach allai fod yn briodol. Os bydd Ofcom yn canfod achos o dorri, mae gennym y pŵer i gyhoeddi hysbysiad gorfodi yn mynnu bod y darparwr VSP yn cymryd camau penodol a/neu i roi cosb ariannol. Yn y pen draw, mae gennym y pŵer i atal neu gyfyngu ar wasanaeth yn yr achosion mwyaf difrifol o ddiffyg cydymffurfedd. Byddwn yn defnyddio ein harfau gorfodi yn gymesur a phan fo'r dystiolaeth yn dangos eu bod yn gyfiawn, gan dalu sylw i'r hawl i ryddid mynegiant gan gynyddu diogelwch defnyddwyr ar yr un pryd.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y DU a phartneriaid rhyngwladol

Byddwn yn parhau i gydweithio ag ystod eang o randdeiliaid a sefydliadau yn y trydydd sector i gynyddu ein dealltwriaeth o niwed a'r arferion gorau, ac i sicrhau canlyniadau rheoleiddiol da. Mae cymhlethdod rheoleiddio ar-lein yn golygu y bydd ein partneriaethau â chyrrff eraill yn bwysicach nag arfer. Er enghraifft, cyrrff ymchwil, prifysgolion a sefydliadau yn y trydydd sector fel yr Internet Watch Foundation, yr NSPCC a Tech Against Terrorism, sy'n gallu cynnig arbenigedd penodol a'n helpu i nodi a deall materion sy'n dod i'r amlwg.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr digidol eraill yn y DU. Mae Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi dod ynghyd i ffurfio [Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol \(DRCF\)](#) i gefnogi cyd-drefniant ar draws y gwaith o reoleiddio gwasanaethau ar-lein.

Fel rhan o gynllun gwaith y Fforwm ar gyfer 2021/22, a gyhoeddwyd ar y cyd, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom wedi ymrwymo i adeiladu ar ein cydweithrediad presennol i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn eglur, ac i sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd gweithredol ein dulliau gweithredu yn ein priod feysydd rheoleiddio.

Ein nod fydd cysoni dulliau gweithredu â rheoleiddwyr rhyngwladol pan fyddwn yn credu y bydd hyn yn rhoi'r diogelwch mwyaf i ddefnyddwyr yn y DU ac yn hybu cydymffurfedd ar draws y diwydiant

Mae trefn VSP y DU yn deillio o Gyfarwydddeb yr UE. Rydym yn credu ei bod hi'n hollbwysig cael cysylltiadau cryf â phartneriaid rhyngwladol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr rhyngwladol i rannu dysgu a deall eu dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio VSP, a

Er bod rheoleiddio VSP yn ategu Cod Plant yr ICO (y Cod Dylunio Priodol i Oedran gynt), mae'r ddau beth yn wahanol. Mae Cod yr ICO yn sicrhau bod gwasanaethau ar-lein y mae plant yn debygol o'u defnyddio yn parhau hawliau plant wrth ddefnyddio eu data, ac yn ymgorffori mesurau diogelwch a phreifatrwydd yn nyluniad eu gwasanaethau. Mae Ofcom yn gweithio gyda'r ICO i helpu'r diwydiant a defnyddwyr i ddeall ein rolau ill dau, a beth mae hyn yn ei olygu iddynt, yn enwedig mewn cysylltiad â mesurau sicrwydd oedran.

Mae hysbysebu yn rhan o'r drefn VSP sy'n elwa'n benodol ar ddull rheoleiddio cydweithredol. Rydym yn cynnig dynodi'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) fel ein cyd-reoleiddiwr ar gyfer hysbysebion a reolir gan VSPs, gan ei rymuso â chyfrifoldeb dydd i ddydd dros reoleiddio hysbysebion o'r fath, ac Ofcom yn gweithredu fel yr ôl-stop statudol. Mae hyn yn adeiladu ar y trefniadau presennol sydd gan Ofcom â'r ASA ar gyfer rheoleiddio hysbysebion darlledu ac ar-alw, ac yn cydnabod y rôl hunan-reoleiddio y mae ASA eisoes yn ei chyflawni ar gyfer hysbysebion ar-lein. Rydym yn credu bod cael un pwynt cyswllt ar gyfer materion hysbysebu ar draws yr holl gyfryngau o fudd i ddefnyddwyr ac i'r diwydiant.

rheoleiddio ar-lein yn ehangach. Ein nod fydd cysoni dulliau gweithredu pan fyddwn yn credu y bydd hyn yn rhoi'r diogelwch mwyaf i ddefnyddwyr yn y DU ac yn hybu cydymffurfedd ar draws y diwydiant A ninnau'n un o'r 'gweithredwyr cynnar' o ran rheoleiddio VSP,

rydym eisoes yn gweithio'n adeiladol â chymheiriaid yn aelod-wladwriaethau'r UE, ac yn fyd-eang, ac yn dal yn fodlon rhannu ein profiadau a'n safbwyntiau lle bo hynny'n ddefnyddiol.

Bydd cydweithio â rheoleiddwyr rhyngwladol yn bwysig iawn mewn cyd-destun gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfedd trawsffiniol â rheolau wedi'u cysoni y Gyfarwyddeb. Er enghraifft,

efallai y byddwn yn credu ei bod hi'n briodol gweithio gyda rheoleiddwyr yng ngwladwriaethau Ardal Economaidd Ewrop ar faterion awdurdodaethol, neu i gyd-drefnu camau gorfodi. Bydd ymgysylltu trawsffiniol effeithiol hefyd yn helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn y DU wedi'u diogelu wrth ddefnyddio VSPs sydd y tu allan i awdurdodaeth Ofcom.

Ein nodau ar gyfer y drefn VSP

Mae cam paratoi Ofcom wedi dod i ben bellach ac mae'r drefn rheoleiddio VSP ar waith. Mae'n drefn newydd yn y DU felly byddwn yn dysgu wrth fynd, ond mae ein nodau'n glir.

Mae gennym bedwar nod eang ar gyfer y drefn VSP:

- **Codi safonau** mesurau diogelwch i ddefnyddwyr
- Nodi a **mynd i'r afael yn gyflym â meysydd lle mae diffyg cydymffurfio**
- **Cynyddu tryloywder** ar draws y diwydiant
- **Paratoi'r diwydiant a ni ein hunain** ar gyfer y drefn Diogelwch Ar-lein fwy cynhwysfawr yn y dyfodol.

Bydd y nodau hyn yn dylanwadu ar ein gwaith ac yn sail i'n dull o sbarduno canlyniadau da i ddefnyddwyr. Y nodau yw'r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i osod a chyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer pob blwyddyn y mae'r drefn yn weithredol (mae blaenoriaethau'r 12 mis nesaf wedi'u nodi yn yr adran nesaf).

Codi safonau mesurau diogelwch i ddefnyddwyr

Rydym yn gwybod bod llawer o lwyfannau eisoes yn gwneud gwelliannau o ganlyniad i reoleiddio ar-lein. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r darparwyr sy'n rhan o'r cwmpas er mwyn deall dull gweithredu cyffredinol gwasanaethau unigol ar gyfer rheoli risgiau a diogelwch, sut mae hyn yn cyfrannu at y penderfyniadau i'w cymryd ac at roi'r mesurau diogelu a nodir yn y ddeddfwriaeth

ar waith, a sut maen nhw'n asesu canlyniadau eu hymdrechion. Byddwn yn datblygu cynlluniau ymgysylltu gyda darparwyr perthnasol yn gyson â'n meysydd ffocws blaenoriaethol. Pan nodir diffygion, rydym yn disgwyl gweld gwelliannau i fesurau diogelwch i ddefnyddwyr fel canlyniad o'r ymgysylltiad goruchwylol hwn.

Nodi a mynd i'r afael yn gyflym â meysydd lle mae diffyg cydymffurfio

Yn bennaf, rydym am weithio gyda llwyfannau i wella meysydd diogelwch i ddefnyddwyr ac yn disgwyl i ddarparwyr ymgysylltu'n adeiladol. Ond efallai y byddwn yn nodi meysydd lle mae diffyg cydymffurfio drwy ein hymgysylltu goruchwylol neu weithgareddau monitro ehangach yn ystod y flwyddyn nesaf.

Os byddwn yn credu nad yw mesurau llwyfan yn diogelu defnyddwyr rhag niwed sylweddol mewn ffordd briodol, byddwn yn gweithredu'n gyflym ac yn cymryd camau gorfodi cadarn lle bo angen.

Os byddwn yn credu nad yw mesurau llwyfan yn diogelu defnyddwyr rhag niwed sylweddol mewn ffordd briodol, byddwn yn gweithredu'n gyflym ac yn cymryd camau gorfodi cadarn lle bo angen.

Cynyddu tryloywder ar draws y diwydiant

Un o effeithiau cadarnhaol y drefn newydd hon yw'r tryloywder y bydd yn ei roi i ddefnyddwyr VSPs, y cyhoedd (gan gynnwys rhieni a gofalwyr), a Senedd y DU ynghylch y camau mae llwyfannau'n eu cymryd i ddiogelu eu defnyddwyr. Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae yn hybu gwell tryloywder gan VSPs ac yn sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddir gan y rheoleiddiwr yn ystyrllon i ddefnyddwyr. Mae ein pwerau casglu gwybodaeth newydd wedi'u dylunio i'n galluogi i wneud hynny am y tro cyntaf erioed.

Bydd Ofcom yn cyhoeddi ei Adroddiad VSP Blynyddol cyntaf yn hydref 2022. Bydd hwn yn adrodd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn ein nodau a'n meysydd blaenoriaeth, ac yn darparu golwg draws-sector ar y mesurau diogelwch a ddefnyddir gan VSPs yn y DU a sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu defnyddwyr yn y ffordd orau bosibl. Rydym yn trafod ein Hadroddiad Blynyddol ymhellach yn yr adran olaf o'r ddogfen hon.

Paratoi ar gyfer Diogelwch Ar-lein

Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ei bwriad i ddisodli'r drefn VSP â'r drefn Diogelwch Ar-lein. Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein drafft, a fydd yn sefydlu'r drefn newydd hon, yn destun craffu cyn y broses ddeddfu yn Nhau Senedd y DU ar hyn o bryd. Bydd Ofcom yn sicrhau bod cymorth ar gael i wasanaethau sy'n pontio i'r drefn diogelwch ar-lein ehangach pan fydd wedi'i sefydlu.

Mae gwaith Ofcom yn rheoleiddio VSPs yn darparu sylfaen gadarn i lywio a datblygu'r drefn diogelwch ar-lein yn y dyfodol, i baratoi'n weithredol, ac i ddatblygu'r sgiliau a'r arbenigedd y bydd eu hangen arnom i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan y drefn diogelwch ar-lein yn y dyfodol.

Rydym eisoes wedi cyflogi amrywiaeth o unigolion medrus ar draws gwahanol arbenigaethau i gynyddu ein galluogrwydd a'n helpu i gyflawni'r rôl newydd hon.

Wrth baratoi ar gyfer rheoleiddio VSP, rydym eisoes yn cael goleuni gwerthfawr ar arferion da mewn cysylltiad â diogelwch defnyddwyr, gwell dealltwriaeth o'r problemau a'r heriau ar draws y sector, ac yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer profiadau niweidiol ar-lein. Byddwn hefyd yn cael gwell dealltwriaeth o effaith rheoleiddio ar-lein.

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod

Ers i'r ddeddfwriaeth ddod i rym ym mis Tachwedd y llynedd, rydym eisoes wedi ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y sector ar-lein i ddeall y dulliau presennol o ddiogelu defnyddwyr.

Wrth inni symud ymlaen o'r cam paratoi byddwn yn mabwysiadu rhaglen strwythuredig o ymgysylltu goruchwylol, wedi'i theilwra i lwyfannau unigol. Rydym wedi nodi pum maes ffocws blaenoriaethol ar gyfer y flwyddyn gyntaf o reoleiddio VSP.

Ar draws y meysydd blaenoriaeth hyn, y nod cyffredinol yw sicrhau bod VSPs yn rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol. Yn gyson â'r nodau yr ydym wedi'u datgan ar gyfer y drefn, byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda'r diwydiant i godi safonau cyffredinol, yn enwedig i blant.

Os gwelwn nad yw defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed sylweddol o dan ofynion y drefn VSP, byddwn yn defnyddio camau gorfodi cadarn os oes angen.

Ar hyd y ffordd byddwn yn taflu goleuni ar berfformiad y diwydiant ac Ofcom, gan gyhoeddi adroddiad blynyddol i roi gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr ar-lein, i rieni/gofalwyr ac i'r cyhoedd. Bydd y gwaith a wnawn o dan y meysydd hyn yn helpu i ddylanwadu ar y drafodaeth polisi cyhoeddus mewn cysylltiad â'r Bil Diogelwch Ar-lein.

Ein blaenoriaethau:

1. **Lleihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol:** byddwn yn canolbwyntio ar leihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol drwy wella'r prosesau cofrestru a chymedroli ar VSPs i oedolion
2. **Trechu casineb a therfysgaeth:** byddwn yn sicrhau bod telerau ac amodau llwyfannau yn diogelu defnyddwyr rhag cynnwys terfysgol, hiliaeth a senoffobia yn effeithiol, yn ogystal â deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb
3. **Mesurau diogelu i bobl dan 18 oed:** byddwn yn gweithio gyda VSPs sy'n boblogaidd ymysg plant i sicrhau eu bod yn cael profiad priodol i'w hoedran
4. **Dilysu oedran ar VSPs i oedolion:** byddwn yn parhau i osod sylfeini pwysig ar gyfer dilysu oedran ar wasanaethau i oedolion
5. **Adrodd a fflagio:** byddwn yn sicrhau bod prosesau fflagio ac adrodd VSPs yn effeithiol, a bod VSPs yn cynyddu ymgysylltiad defnyddwyr â nhw.

I'r meysydd y byddwn yn rhoi llawer o'n sylw. Ond rydym yn cydnabod y gallai materion eraill ddod i'n sylw yn ystod y 12 mis nesaf ac, o ganlyniad i ddifrifoldeb y niwed neu'r risg i ddefnyddwyr, y bydd yn rhaid eu blaenoriaethu o bosibl.

Mewn amgylchiadau o'r fath byddwn yn penderfynu ar ein blaenoriaethau yn gyson â'r ystyriaethau a nodir mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon.

Lleihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol

Byddwn yn mynd ati i leihau'r risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol drwy gryfhau prosesau cofrestru a chymedroli dilynol VSPs i oedolion

Mae cynnwys wedi'i hunan-gynhyrchu yn cyfrif mwy a mwy am ddelweddau cam-drin plant. Adroddodd yr Internet Watch Foundation gynnydd o 77% mewn deunydd cam-drin "wedi'i hunan-gynhyrchu" yn 2020. O blith yr 153,350 o dudalennau gwe y gweithredwyd arnynt gan yr Internet Watch Foundation yn 2020, roedd bron i hanner (68,000 neu 44%) wedi'u hasesu fel cynnwys delweddau wedi'u hunan-gynhyrchu.¹¹

Mae VSPs i oedolion yn peri risg uwch o ran llwytho deunydd cam-drin plant yn rhywiol i fyny. Mae oes newydd o apiau a gwefannau tanysgrifio uniongyrchol i ddilynwyr sy'n arbenigo mewn cynnwys i oedolion wedi'i gynhyrchu gan y defnyddiwr yn cynyddu'r risg hon, naill ai oherwydd bod defnyddwyr dan oed yn llwyddo i agor cyfrifon er gwaethaf polisi llwyfan, neu oherwydd bod cyfrifon defnyddwyr dros 18 oed yn cyhoeddi cynnwys anghyfreithlon o bobl eraill sydd dan 18 oed.

Yn ein canllawiau i VSPs, rydym wedi datgan disgwyliad clir bod cael telerau ac amodau i atal deunydd cam-drin plant yn rhywiol, a'u gweithredu'n effeithiol, yn hollbwysig ar gyfer diogelu defnyddwyr a chydymffurfio â'r drefn. Rydym am sicrhau bod y broses cofrestru crewyr a'r gwiriadau dilynol ar y llwyfannau perthnasol yn ddigon cadarn i leihau'n sylweddol y risg o ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yn cael ei lwytho i fyny a'i rannu.

Erbyn i Ofcom gyhoeddi'r Adroddiad VSP Blynyddol flwyddyn nesaf, rydym yn disgwyl y bydd gan bob VSP i oedolion brosesau cofrestru a chynefino cadarn i grewyr sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i ddefnyddwyr gyhoeddi deunydd cam-drin plant yn rhywiol. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd cynnydd sylweddol wedi'i wneud i sicrhau bod prosesau cadarn a chyflym ar waith i weithredu'n ddi-oed ar y cynnwys hwn os caiff ei lwytho i fyny. Rydym am i lwyfannau ddangos y camau maen nhw'n eu cymryd i asesu effeithiolrwydd y prosesau hyn.

¹¹ Internet Watch Foundation (2021) '[Grave threat to children from predatory internet groomers as](#)

[online child sexual abuse material soars to record levels](#)'.

Trechu casineb a therfysgaeth

Byddwn yn sicrhau bod telerau ac amodau llwyfannau yn diogelu defnyddwyr rhag cynnwys terfysgol, hiliaeth a senoffobia yn effeithiol, yn ogystal â deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb

Roedd ein gwaith ymchwil wedi canfod bod 32% o ddefnyddwyr VSP wedi gweld neu brofi cynnwys casineb yn ystod y tri mis diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o achosion o gynnwys casineb wedi'u cyfeirio tuag at grŵp hiliol (59%), wedi'i ddilyn gan grwpiau crefyddol (28%), pobl drawsryweddol (25%) a'r rhai o gyfeiriadedd rhywiol penodol (23%).¹²

Yn ein canllawiau i VSPs, rydym wedi datgan disgwyliad clir bod cael telerau ac amodau sy'n gwahardd llwytho deunydd niweidiol perthnasol i fyny, a'u gweithredu'n effeithiol, yn rhan annatod o gydymffurfio. Mae cynnwys a fyddai'n drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth, a hiliaeth a senoffobia, yn ogystal â deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb, yn rhan o hyn.

Byddwn yn sicrhau bod telerau ac amodau darparwyr sy'n rhan o'r cwmpas (gan gynnwys rheolau'r llwyfan neu ei ganllawiau cymunedol) yn gyson â'r gofynion cyfreithiol. Hefyd rydym am ddeall sut mae'r rhain yn cael eu cyfathrebu i ddefnyddwyr. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chyrrff anllywodraethol arbenigol a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Rydym yn bwriadu gweithio gyda VSPs perthnasol i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, lle bo angen byddwn yn cymryd camau gorfodi cadarn yn erbyn darparwyr sydd wedi methu rhoi mesur ar waith lle rydym yn credu bod y mesur hwnnw'n briodol mewn cysylltiad â'u gwasanaeth. Rydym yn fwy tebygol o ystyried camau gorfodi os na fydd darparwyr yn cydweithredu ag Ofcom.

Pan fydd darparwyr VSP yn mabwysiadu'r mesurau a restrir yn y ddeddfwriaeth, rhaid eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau'r diogelwch a ddymunir. Cynnwys telerau ac amodau, a'r ffordd o'u cyfathrebu, yw blaenoriaeth Ofcom ar gyfer y flwyddyn i ddod ond fel rhan o'r gwaith hirdymor ar fynd i'r afael â chasineb a therfysgaeth ar-lein, byddwn yn dymuno deall sut mae telerau ac amodau llwyfannau'n cael eu gorfodi.

Byddwn yn adrodd ar y camau yr ydym wedi'u cymryd i sicrhau cydymffurfedd yn y maes hwn yn ein Hadroddiad VSP Blynyddol flwyddyn nesaf. Pan welwn arferion da ar draws y diwydiant, byddwn yn tynnu sylw atynt.

¹² Ofcom, [Arolwg o'r defnydd o lwyfannau rhannu fideos a phrofiad o niwed](#) 2021.

Diogelu pobl dan 18 oed

Byddwn yn gweithio gyda VSPs sy'n boblogaidd ymysg plant i sicrhau bod ganddynt fesurau diogelwch priodol ar waith i bobl dan 18 oed.

Roedd ein gwaith ymchwil wedi canfod bod 99% o bobl rhwng 12 a 15 oed sydd ar-lein wedi gwyllo cynnwys ar lwyfannau rhannu fideos yn 2020. Roedd TikTok a Snapchat ymysg yr apiau a oedd yn cael eu defnyddio amlaf ymysg pobl yn eu harddegau, ar ôl YouTube ac Instagram.¹³ Mae plant yn ymgysylltu'n eang â chynnwys fideo ar-lein ac mae VSPs yn llwyfan buddiol ar gyfer adloniant, addysg a hunanfyneigiant.

Fodd bynnag, roedd yr ymchwil hefyd wedi canfod bod 79% o bobl rhwng 13 a 17 oed sy'n defnyddio VSPs wedi dweud eu bod wedi profi niwed ar-lein posibl ar lwyfan rhannu fideos yn ystod y tri mis diwethaf. Hefyd roedd y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o lawer nag oedolion sy'n defnyddio VSPs o ddweud eu bod wedi gweld nifer o niweidiau ar-lein posibl, gan gynnwys: delwedd negyddol o'r corff ac anhwylderau bwyta; cynnwys sy'n glamoreiddio ffyrdd afiach neu gamdriniol o fyw; a hybu hunan-niweidio.¹⁴

Mae rhai o'r VSPs sy'n rhan o'r cwmpas yn boblogaidd iawn ymysg plant a defnyddwyr dan 18 oed. Mae mynediad at gynnwys amhriodol i wahanol grwpiau oedran yn bryder eang ac mae angen gwneud mwy o lawer i sicrhau bod pobl dan 18 oed yn cael eu diogelu'n addas ar-lein.

Rhaid i lwyfannau deilwra eu hymdrechion diogelu i sicrhau bod eu holl ddefnyddwyr yn cael profiad sy'n briodol i'w hoedran. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod defnyddwyr o bob oedran yn gallu deall mesurau diogelwch ac ymgysylltu â nhw, a bod llythrennedd yn y cyfryngau yn cael ei hybu.

Mae sicrwydd oedran yn her ar draws y diwydiant cyfan ac rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda gwasanaethau perthnasol i sicrhau bod ganddynt atebion effeithiol. Dros y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i gydweithio â gweithredwyr allweddol eraill yn y maes hwn, yn cynyddu ein dealltwriaeth dechnegol o'r adnoddau sydd ar gael ac sy'n dod i'r amlwg, ac yn parhau i drafod â llunwyr polisiau yn y llywodraeth i sicrhau bod y drefn diogelwch ar-lein yn y dyfodol yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan y drefn VSP.

Pan fydd Ofcom yn cyhoeddi'r Adroddiad VSP Blynyddol yn hydref 2022, byddwn yn gallu adrodd yn fanwl ar y mesurau mae VSPs wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu pobl ifanc dan oed a sicrhau bod cynnwys yn briodol i oedran. Drwy ddarparu'r tryloywder hwn, bydd rhieni, gofawyr, seneddwyr a'r cyhoedd yn gallu cymharu'r hyn mae llwyfannau'n ei wneud i ddiogelu pobl ifanc.

Mae'r ICO yn bartner rheoleiddio allweddol i Ofcom gan ei bod yn gweithredu ei Chod Plant. Mae trefnau Ofcom a'r ICO ill dau yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar risg ar gyfer sicrwydd oedran, gan gydnabod datblygiad atebion technolegol a chyfeirio at safonau a chynlluniau ardystio fel ffordd o helpu cwmnïau sy'n meddu ar wahanol alluogrwydd ac adnoddau i gydymffurfio i raddau mwy. Mae Ofcom a'r ICO wedi ymrwymo i gydweithio i hybu'r arferion gorau o ran sicrwydd oedran sy'n cydymffurfio â'r gofynion preifatrwydd yn y gyfraith diogelu data, ac â'r gofyniad i ddiogelu plant rhag deunydd niweidiol o dan y drefn VSP.

¹³ Ofcom, [Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein](#), 2021.

¹⁴ Ofcom, [Arolwg o'r defnydd o lwyfannau rhannu fideos a phrofiad o niwed](#) 2021.

Dilysu oedran ar VSPs i oedolion

Byddwn yn parhau i osod sylfeini pwysig ar gyfer dilysu oedran ar wasanaethau i oedolion

Roedd gwaith ymchwil Ofcom wedi canfod bod y mwyafrif helaeth o ddefnyddwyr VSP yn teimlo bod angen rheolau i ddiogelu plant rhag gweld cynnwys rhywiol (84%).¹⁵ Hefyd, roedd y BBFC wedi canfod bod 83% o rieni'n cytuno â'r datganiad "y dylai fod rheolaethau dilysu oedran cadarn ar waith i atal plant (pobl dan 18 oed) rhag gweld pornograffi masnachol ar-lein".¹⁶

Mae'r rheoliadau VSP yn mynnu bod deunydd â'r potensial mwyaf i niweidio pobl dan 18 oed yn destun y mesurau rheoli mynediad llymaf. Rydym yn credu bod hyn yn golygu y dylai deunydd pornograffig gael ei guddio tu ôl systemau dilysu oedran cadarn sydd naill ai'n gweithredu fel giât oedran i atal defnyddwyr rhag y llwyfan cyfan, neu'n hidlo deunydd mewn ffordd sy'n diogelu pobl dan 18 oed.

Eleni, byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith o wneud prosesau dilysu oedran yn ofynnol i wasanaethau i oedolion. Cyn y drefn diogelwch ar-lein, rydym yn cydnabod bod

heriau i'w goresgyn, yn enwedig gan fod yr ystod gul o VSPs wedi'u sefydlu yn y DU sy'n rhan o gwmpas Ofcom yn golygu na fydd yn rhaid i lawer o VSPs i oedolion gydymffurfio â rheolau Ofcom. Byddwn yn gweithio gyda'r VSPs i oedolion sydd wedi ein hysbysu ar yr amserlenni ymarferol ar gyfer rhoi mesurau cadarn ar waith, gan sicrhau bod pob llwyfan yn mabwysiadu dull gweithredu cymesur sy'n seiliedig ar risg.

Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill i gyd-drefnu'r ymdrechion yn y maes hwn er mwyn sicrhau tegwch i'r holl ddarparwyr VSP i oedolion, gan gynyddu'r mesurau diogelwch i bobl dan 18 oed ar yr un pryd. Ein nod yw sefydlu gweithgor cydweithredol o reoleiddwyr domestig a rhyngwladol sy'n gweithio tuag at nodau tebyg, a chynyddu ein dealltwriaeth dechnegol o'r opsiynau sydd ar gael. Byddwn yn adrodd ar yr holl gynnydd yn yr Adroddiad VSP Blynyddol flwyddyn nesaf.

¹⁵ Ofcom, [Arolwg o'r defnydd o lwyfannau rhannu fideos a phrofiad o niwed](#) 2021.

¹⁶ BBFC, [Research into children and pornography](#), 2019

Adrodd a fflagio

Byddwn yn sicrhau bod prosesau fflagio ac adrodd VSPs yn effeithiol, a bod VSPs yn cynyddu ymgysylltiad defnyddwyr â nhw.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr VSP yn gwybod am y mesurau diogelwch sydd ar gael ar y llwyfannau maen nhw'n eu defnyddio. Er mai adnoddau fflagio ac adrodd yw'r adnodd diogelwch mwyaf cyfarwydd (60%), dim ond un o bob pedwar defnyddiwr sy'n eu defnyddio.

Pan fydd cynnwys niweidiol ar gael ar VSP, mae angen i'r llwyfan gael gwybod amdano er mwyn ei dynnu neu gymryd camau priodol eraill. Felly, mae'n hollbwysig bod defnyddwyr yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i roi gwybod i llwyfannau am eu pryderon drwy fecanweithiau adrodd a fflagio.¹⁷

Fodd bynnag, gwyddwn o'n gwaith ymchwil nad oedd dros draean y defnyddwyr VSP (35%) wedi gweithredu o gwbl ar ôl gweld niwed posibl. Ymysg y rhesymau dros beidio â gweithredu o gwbl mae canfyddiad na fydd hynny'n gwneud gwahaniaeth (31%); ac nad effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol (30%). Dywedodd chwarter y defnyddwyr nad oeddent yn gwybod beth i'w wneud nac i bwy i'w adrodd. Ymysg y rhai a oedd wedi gweithredu, roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r canlyniad. Dim ond ychydig dros hanner (55%) oedd yn gwybod pa gamau a gymerwyd.

Mae ein canllawiau i VSPs yn esbonio bod Ofcom yn credu bod cael rhyw fath o fecanwaith adrodd a fflagio, a'i weithredu'n effeithiol, yn rhan annatod o ddiogelu defnyddwyr a dal llwyfannau i gyfrif. Felly, rydym am gael dealltwriaeth fanwl o brosesau adrodd a fflagio presennol y VSPs sy'n rhan o'r cwmpas, gan edrych yn benodol ar ba mor hawdd yw dod o hyd iddynt a'u defnyddio, y camau sy'n cael eu cymryd, a phrofiad y defnyddiwr wrth eu defnyddio.



¹⁷ Mae rhai llwyfannau'n dewis mabwysiadu technolegau sy'n adnabod cynnwys o'r fath, ond nid yw hyn yn un o ofynion y drefn VSP

Byddwn yn parhau i ymchwilio i ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r adnoddau diogelwch pwysig hyn a'u hymgysylltiad â nhw, gan gynnwys drwy dreialon dealltwriaeth o ymddygiad a'n hymchwil llythrennedd yn y cyfryngau, a gweithio gyda phobl eraill sy'n weithredol yn y maes hwn. Byddwn yn mynd ati i nodi argymhellion ar gyfer gwella lle bo hynny'n briodol. Bydd Ofcom yn cynnal ei ymgyrch ymwybyddiaeth defnyddwyr ei hun yn nes ymlaen eleni ac yn

gweithio gyda llwyfannau i hybu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'r adnoddau hyn

Erbyn i Ofcom gyhoeddi ei Adroddiad VSP Blyneddol, rydym yn disgwyl gallu adrodd ar gynnydd mewn ymwybyddiaeth defnyddwyr o adnoddau adrodd a fflagio ac yn eu hymgysylltiad â nhw, a rhannu arferion da o ran yr hyn sy'n effeithiol i ennyn cyfranogiad defnyddwyr.

Edrych i'r Dyfodol

Mae'r drefn VSP yn creu rhai heriau unigryw i Ofcom, yn ogystal â rhai cyfleoedd pwysig. Rydym eisoes wedi cyflawni llawer a gwyddwn y bydd y 12 mis nesaf yn gyfnod pwysig yn y gwaith o ddiogelu defnyddwyr ar-lein wrth inni roi ein cynlluniau ar waith.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ein pum maes ffocws blaenoriaethol. Cam nesaf Ofcom fydd ysgrifennu at VSPs i amlinellu ein disgwyliadau mewn cysylltiad â'r meysydd ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddwn yn ymgysylltu â'r holl ddarparwyr sy'n rhan o'r cwmpas i sicrhau bod llwyfannau'n deall eu rhwymedigaethau statudol.

Mae gan Ofcom gynlluniau i ymgysylltu'n barhaus â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i nodi meysydd ffocws yn y dyfodol. Byddwn yn ymchwilio i niwed a mesurau, ac yn cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth i ddefnyddwyr VSP ynghylch y mesurau diogelu mae llwyfannau'n eu cynnig.

Mae adroddiad VSP Ofcom yn debygol o fod yr adroddiad cyntaf o'i fath. Bydd yn darparu tryloywder mawr ei angen ar draws y sector er mwyn taflu goleuni ar arferion da a galluogi defnyddwyr i gymharu gwahanol VSPs

Adroddiad VSP Blynyddol cyntaf Ofcom

Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Hadroddiad VSP Blynyddol cyntaf yn hydref 2022. Bydd hwn yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i roi tryloywder i ddefnyddwyr ynghylch mesurau diogelwch y llwyfannau sy'n rhan o'r cwmpas.

Byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth i gasglu gwybodaeth ar draws y gyfres o fesurau yn y ddeddfwriaeth gan gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth am systemau adrodd, fflagio a delio â chwynion. Byddwn yn ymgysylltu â darparwyr ymlaen llaw i drafod y wybodaeth yr ydym yn bwriadu gofyn amdani. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi tystiolaeth gan banel ymchwil defnyddwyr VSP yn ein hadroddiadau, a fydd yn parhau i fonitro profiadau defnyddwyr o gynnwys niweidiol a'u hymgysylltiad â mesurau diogelwch.

Mae rhai llwyfannau eisoes yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth am ba mor gyffredin yw deunydd niweidiol, a'r camau a gymerwyd mewn ymateb iddo. Fodd bynnag, o ganlyniad i natur amrywiol VSPs, mae gwahaniaethau yn y ffordd

mae niwed a mesurau diogelwch yn cael eu disgrifio a'u trafod, a sut yr adroddir arnynt.

Mae adroddiad VSP Ofcom yn debygol o fod yr adroddiad cyntaf o'i fath. Bydd yn darparu tryloywder mawr ei angen ar draws y sector er mwyn taflu goleuni ar arferion da a galluogi defnyddwyr i gymharu gwahanol VSPs

Mae niweidiau newydd yn dod i'r amlwg ar-lein yn barhaus a bydd disgwyliadau defnyddwyr o ddiogelwch yn erbyn y niweidiau hyn yn newid dros amser. Er mwyn addasu i'r newidiadau hyn mae'n rhaid i ni, a darparwyr gwasanaethau, fabwysiadu dull gweithredu rheolaidd a hyblyg. Yn y dyfodol, efallai y byddwn yn mynd ati i ddiffinio targedau mesuradwy ar gyfer gwella'r mesurau diogelwch i ddefnyddwyr, ond eleni rydym yn canolbwyntio ar gydweithio â'r diwydiant, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill i wneud cynnydd mewn meysydd pwysig ac adrodd yn gyhoeddus ar ein canfyddiadau.

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn anelu at dryloywder llawn ynghylch yr arferion diogelwch ar draws y diwydiant. Ein nod yw cael canlyniadau effeithiol a mesuradwy i ddefnyddwyr, ond rydym yn cydnabod bod ffordd i fynd i gyrraedd yno. Byddwn yn symud gam yn agosach gyda phob adroddiad, gan hybu'r defnydd o wybodaeth gyson a mesuradwy a fydd, yn ei thro, yn codi safonau'r diwydiant.